
STORI
GALWAD



"Beth petaen ni'n gweld ein hunain yn wahanol? Yn gweld gwirionedd rwan drwy lygaid y rhai sy'n byw 11,000 toriad gwawr i'r dyfodol. Oherwydd onid dyna sydd ei angen arnon ni? Cael gwared ar y presennol sy'n cymylu'r gwir, mwgwd llygaid heddiw, fel y gallwn ni deimlo posibilrwydd unwaith eto? Deffro. Creu ein hunaniaethau nid drwy ein perthynas efo'r gorffennol, ond yn ein perthynas efo'r dyfodol, efo pwy fyddwn ni, pwy y gallen ni fod?"

TOMOS YN NIWEDDGLO GALWAD, BLAENAU FFESTINIOG

# CYFLWYNIAD

Gan ddwyn ysbrydoliaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd GALWAD yn fath newydd o stori ar gyfer ein hoes ni. Gan ddatblygu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol mewn amser go iawn dros saith diwrnod yn hydref 2022, ac wedi'i darlledu'n fyw ar Sky Arts nos Sul 2 Hydref, defnyddiodd GALWAD ffurfiau newydd o adrodd straeon i greu cysylltiad emosiynol gyda dyfodol posib ymhen 30 mlynedd.

Roedd GALWAD wedi'i gwreiddio ym mhobl a llefydd y Gymru gyfoes, gyda byd 2052 wedi'i ddychmygu gan gannoedd o bobl mewn ymateb i'r canlyniadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a allai ddeillio o gynnydd o 1.8 gradd mewn tymheredd byd-eang.

Torrodd GALWAD dir newydd drwy ddefnyddio dull adrodd straeon trawsgyfryngol (gwasgaru cymeriadau a phlot ar draws sawl sianel a llwyfan) ynghyd â pherfformiadau wedi'u ffrydio'n fyw a'u darlledu'n fyw i drochi'r gwyliwr mewn stori oedd yn datblygu mewn amser go iawn.

Roedd GALWAD wedi ymrwymo i gynhwysiant radical o'r cychwyn cyntaf, ac aeth ati i newid sut mae prosiectau o'r maint yma'n cael eu gwneud a gan bwy, drwy gastio cynhwysol, sgriptio tairieithog, fformatau hygyrch, ymgysylltu â'r gymuned, a phrosesau creu cydweithredol yn cynnwys dros 400 o weithwyr llawrydd a phobl greadigol ledled Cymru: cyd-ddychmygu yng ngwir ystyr y gair.



# YR ADRODDWYR STRAEON



# YR ADEILADWYR BYDOEDD


**Daeth 120 o bobl o gymunedau ledled Cymru ynghyd, wedi'u hysbrydoli gan arbenigedd byd-eang yn amodau hinsoddol, technolegol a chymdeithasol y deng mlynedd ar hugain nesaf, i ddychmygu bywyd yn 2052.**

Arweiniwyd y broses yma o 'adeiladu bydoedd' gan y dylunydd cynhyrchu, Alex McDowell, sy'n adnabyddus am ffilmiau fel Minority Report, ac Experimental Design Studio. Cafodd yr adeiladwyr bydoedd eu recriwtio a'u cefnogi gan bum partner cymunedol – CellB ym Mlaenau Ffestiniog, Citizens Cymru, Celfyddydau Anabledd Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) ac Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful.

Drwy broses chwe wythnos, creodd yr adeiladwyr bydoedd 'adnodd straeon' – Cymru yn 2052 – a ddefnyddiwyd gan y tîm ysgrifennu a'r dylunwyr i greu byd 2052 GALWAD.

Daliodd yr adeiladwyr bydoedd i fod yn rhan o waith cynhyrchu GALWAD – gan ysgrifennu a recordio llawer o leisiau 2052 ar gyfer y diweddglo a ffurfio'r cast cymunedol ar gyfer y perfformiad byw.






“

Mae holl brofiad GALWAD, adeiladu’r bydoedd, y ffordd rydyn ni wedi bod yn ymwneud â rhannau o’r broses greadigol, y digwyddiad byw, wedi cael effaith ddofn arna i. Fe ddaeth popeth ar adeg pan o’n i’n meddwl am newid, ac mae wedi fy helpu’n fawr i wneud i newid ddigwydd ar fy nghyfer i fy hun a’r gymuned.

CYFRANOGWR A CHYDWEITHIWR YN Y BLAENAU



EMILY BURNETT



OWEN SHEERS



MEGAN ANGHARAD HUNTER



JAMIE JONES



EDWARD LEE



CIARAN FITZGERALD



ERIC NGALLE CHARLES



CATHERINE LINSTRUM



GREG GLOVER



STEVEN KAVUMA



FIONA MAHER



MARVIN THOMSON



MATT COLIN  EVANS



DARRAGH MORTELL



KATIE ELIN-SALT



HANNA JARMAN

# YR AWDURON

Llwyddodd tîm ysgrifennu o 16 o Gymry i ddod â'r straeon yn fyw – o 19 o negeseuon a monologau wedi'u sgriptio a drama 60 munud, i ddyfeisio saith golygfa fyw a pherfformiad terfynol 90 munud o hyd. I lawer o'r awduron newydd, roedd GALWAD yn cynnig llwyfan rhyngwladol i'w gwaith, a gyrhaeddodd filiynau o wylwyr.

“

**Roedd bod yn rhan o rywbeth mor gynhwysol, heriol a phwysig a oedd wedi'i wreiddio yng Nghymru ond yn siarad â'r byd yn fraint go iawn.**

GREG GLOVER

# Y TYWYSYDD



Roedd blog y newyddiadurwr ffuglennol Tomos W. Jones, oedd yn cael ei chwarae gan Rhodri Meilir, yn tywys cynulleidfaoedd drwy stori'r wythnos – gan gasglu'r cynnwys ar draws sianeli cymdeithasol a darparu crynodeb dyddiol o'r ffordd y datblygodd y stori. Ymddangosodd Tomos yn fyw yn y diweddglo ym Mlaenau Ffestiniog. Denodd y blog 15,000 o ddilynwyr yn y ddau ddiwrnod cyntaf, gan ddangos gwerth cael adroddwr wrth rannu straeon mewn ffordd drawsgyfryngol ddosranedig ar gyfer cynulleidfa ar-lein wasgaredig.

# Y STORI



# NEGESEUON O’R DYFODOL

Cafodd 19 o fonologau a negeseuon yn ogystal â nodiadau llais eu sgriptio a’u perfformio gan actorion a chast cymunedol, a’u dosbarthu ar draws sianeli cymdeithasol, gan roi awgrymiadau a chliwiau i ni o fyd y dyfodol o amrywiaeth o safbwyntiau.



**GWYLIWCH Y NEGESEUON**

# YN FYW O GYMRU

Roedd perfformiadau dyddiol yn cael eu ffrydio'n fyw gan arddangos amrywiaeth pobl a llefydd Cymru – o draeth Abertawe i siop trin gwallt ym Merthyr Tudful a hen chwarel ym Mlaenau Ffestiniog. Cyfunwyd gwaith cynhyrchu theatr â thechnegau darlledu teledu i greu stori gyffrous mewn amser go iawn oedd yn mynd â'r gwyliwr ar daith ar draws y Gymru gyfoes drwy lygaid grŵp o bobl ifanc yn eu harddegau: cyfarwyddo gan Gethin Evans, coreograffi gan Anthony Matsena a Joshua Attwood, dylunio gan Marc Rees ac Edith Morris, a'r gwisgoedd gan Rhiannon Matthews.

> Am gymaint o resymau ac ar gymaint o lefelau, mae #Galwad22 yn cyfleu hud a gweledigaeth Cymru.
>
> STEAM CO., TWITTER

> Fel rhywun sy'n byw i ffwrdd o Gymru, roedd yn hyfryd cael ymgolli mewn cymaint o leoliadau a phobl, gyda chysyniad a stori mor ddiddorol... felly diolch i bawb oedd yn rhan ohono.
>
> DEB M., TWITTER



# Y DIWEDDGLO BYW

Roedd y diweddglo byw 90 munud o hyd, oedd yn cael ei ddarlledu'n fyw o Flaenau Ffestiniog nos Sul 2 Hydref, yn mynd â chynulleidfaoedd o rali ar fachlud haul i Lyn Ffridd-y-bwlch yn y chwarel. Rhoddodd y cymeriad canolog, Efa, araith rymus yn disgrifio dyfodol Blaenau Ffestiniog, wedi'i hysgrifennu gan Owen Sheers ar sail sgyrsiau ac ymchwil gyda thrigolion y dref a phartneriaid cymunedol.

Sicrhaodd y timau rheoli llwyfan a darlledu (Oxyfire) olygiad di-dor o'r recordiad dal i fyny oedd wedi'i recordio ymlaen llaw i'r darllediad byw ar Sky Arts. Sicrhaodd hyn y gallai gwylwyr o bell symud ymhlith y gynulleidfa fyw fel pe baen nhw'n bresennol eu hunain i brofi'r rali, yr orymdaith a gosodwaith ysblennydd y diweddglo ar y llyn a ddyluniwyd gan Ronan Devlin a'i oleuo gan Elanor Higgins, gyda sgôr a gyfansoddwyd gan Dyfan Jones gydag Alexander Comana oedd yn cynnwys llawer o leisiau'r adeiladwyr bydoedd.

GWYLIWCH Y DIWEDDGLO BYW



# DRAMA DELEDU

Roedd y ddrama deledu 60 munud o hyd yn datgelu byd a chymeriadau 2052 yr oedd cynulleidfaoedd wedi cwrdd â nhw drwy gydol yr wythnos. Cafodd y ddrama, oedd wedi'i hysbrydoli gan adnodd straeon yr adeiladwyr bydoedd, ei chynhyrchu gan Mad as Birds Films a'i chyfarwyddo gan Eric Styles, ac roedd yn cynnwys straeon dros gyfnod o 30 mlynedd. Gan arddangos lleoliadau ledled Cymru, llwyddodd yr effeithiau arbennig i ddod â rhai o weledigaethau'r adeiladwyr bydoedd ar gyfer Cymru'r dyfodol yn fyw.



> Fwynheais i hynna... elfennau dystopaidd ac iwtopaidd i'r stori yn sicr... ond yn llawer mwy iwtopaidd erbyn y Diweddglo. Llongyfarchiadau a da iawn bawb! (Nawr... mae awydd trip i Flaenau Ffestiniog arna i...)

TIM S., FACEBOOK

# CYNULLEIDFAOEDD



# ADRODD STRAEON MEWN AMSER GO IAWN



Datblygodd GALWAD dros gyfnod o saith diwrnod ar draws sianeli cymdeithasol a darlledu. Dosbarthwyd 167 darn o gynnwys (i gyd mewn fformatau hygyrch) dros bum llwyfan ar-lein (Twitter, Facebook, Tiktok, Instagram, Youtube) a sianeli darlledu Sky Arts, S4C a BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.

**5.44M +**
CYRHAEDDIAD AR-LEIN CYFFREDINOL

**149**
GWLAD

**2.74M+**
GWYLIADAU UNIGRYW*

**2.5M+**
O FUNUDAU WEDI'U GWYLIO**

*GWYLIADAU UNIGRYW WEDI'U CYFRIFO AR Y SAIL BOD O LEIAF 50% O HYD Y DARN UNIGOL O GYNNWYS WEDI'I WYLIO.
**MUNUDAU Y GELLIR EU CYFRIF YN DEBYGOL O FOD YN FWY AR SAIL LLWYFANNAU DIGIDOL YCHWANEGOL.



Cafodd y cynnwys ar-lein lefelau uchel o ymgysylltiad gan gynulleidfaoedd (hoffi, rhannu, a sylwadau), mewn rhai achosion deirgwaith yn uwch na'r lefelau sy'n cael eu hystyried yn 'rhagorol' (Twitter).

> Wedi mwynhau pob eiliad a phob blog oedd yn arwain at heddiw.
>
> DIANA W, FACEBOOK

> Anhygoel... alla i ddim ond ei gymharu â The Passion ym Mhort Talbot gyda Michael Sheen ar gyfer y profiad byw.
>
> DEREK D, FACEBOOK

> Waw, jyst waw. Da iawn bob un ohonoch chi fuodd yn rhan o hyn, am y perfformiad – ac am y neges!
>
> MS. O, FACEBOOK



Cafodd monolog Matt Colin Evans, a berfformiwyd gan Richard Harrington, ei rhannu gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru a'i gwylio dros 85,000 o weithiau ar Twitter.

"

Hollol gwych. Neges pwysig ac brosiect difyr ofnadwy! Buase'n wych curo'r targed o dros filiwn o siaradwyr Gymraeg a bobl yn parchu'r Iaith a'r diwylliant.

Absolutely fantastic. An important message and a terribly entertaining project! It would be great to beat the target of over a million Welsh speakers and people who respect the language and culture.

CRAIG C., TWITTER


"

O bosib y fideo gorau mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi'i gyhoeddi erioed, da iawn.

TOM L., TWITTER


# SUT GWYLION NI AR-LEIN

### YOUTUBE



- **45.9%** TELEDU
- **39%** FFÔN SYMUDOL
- **10.8%** CYFRIFIADUR
- **4.3%** LLECHEN

### % O'R GWYLIO CYFFREDINOL



- **53.8%** FACEBOOK/INSTAGRAM
- **39.2%** YOUTUBE
- **4.5%** TWITTER
- **2.5%** TIKTOK

# ARLOESI



# DAETH DROS 400 O WEITHWYR LLAWRYDD AC UNIGOLION CREADIGOL YNGHYD I DDOD Â STRAEON GALWAD YN FYW.

O ddylunwyr i goreograffwyr, cerddorion, cyfarwyddwyr theatr, gwneuthurwyr ffilm, actorion, dehonglwyr iaith arwyddion, rheolwyr llwyfan i dimau gwisgoedd – roedd hon yn weithred greadigol ar raddfa na welwyd mohoni yng Nghymru o'r blaen.



**GWYLIWCH FFILM CREU GALWAD**



# MYNEDIAD SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN AR RADDFA FAWR

**Castio a recriwtio cynhwysol ar gyfer dros 350+ o staff, pobl greadigol, gweithwyr llawrydd.**
Creodd a gwireddodd ein tîm mynediad becynnau mynediad personol a chynlluniau cymorth ar gyfer yr holl gydweithwyr Byddar, Anabl a Niwroamrywiol.

**Straeon a sgriptio o dan arweiniad profiad byw.**
Daeth ag adrodd straeon Byddar a'r iaith Gymraeg i sylw cynulleidfa ehangach.

**Fformatau hygyrch.**
Mewn cam arloesol ar gyfer y diwydiant, darparwyd cynnwys yn fformatau Iaith Arwyddion Prydain, disgrifiad sain dwyieithog a capsiynau.

**LAWRLWYTHWCH YR ADRODDIAD MYNEDIAD**

"Mae wedi fy nghyffwrdd yn fawr – mae'n wych. Mae gen i nith dair oed sydd â Syndrom Down ac mae gweld negeseuon fel hyn wir yn gwneud i fi deimlo mor gadarnhaol am y dyfodol a'r posibiliadau sydd ganddi. Diolch i GALWAD.

AMY N., YOUTUBE

"Fel Actor Anabl, mae angen yr holl gefnogaeth y galla i ei gael gan y tîm rwy'n gweithio gyda nhw. GALWAD, cyfnod byr oedd hwn gyda chi ond roedd y gefnogaeth yn golygu llawer. Diolch.

ANDRIA DOHERTY



# ROEDD SINEMATOGRAFFI UN SAETHIAD YN TROCHI'R GWYLIWR YN Y PROFIAD BYW.

Llwyddodd y Cyfarwyddwr Ffotograffiaeth, Bani Mendy, i drochi'r gwyliwr yng nghanol stori Efa drwy ddefnyddio techneg un saethiad gyda sain wedi'i gymysgu'n fyw ar leoliad, wedi'i gyfansoddi gan Dyfan Jones gydag Alex Comana a Beth Lewis gyda dylunaid sain gan Mike Beer.

> **“**
>
> **Roedd y gwaith camera byw oedd wedi'i goreograffu'n hyfryd yn fy nenu i mewn i'r stori. Gwaith arwrol ar y diweddglo byw, yn cadw sylw'n barhaus drwy adrodd straeon trochol.**
>
> RICHARD W., FACEBOOK

# CYNHYRCHIAD TAIRIEITHOG

Fel cenedl ddwyieithog, roedd Cymru'n cynnig main arbrofi berffaith ar gyfer math newydd o adrodd straeon amlieithog. Roedd GALWAD yn plethu Cymraeg, Saesneg a Iaith Arwyddion Prydain drwy'r sgriptiau – gan gynnig dewis arall i'r fformat cefn-wrth-gefn o greu cynyrchiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Yn 37% o'r cynnwys, roedd 50% neu fwy yn Gymraeg, ac roedd Iaith Arwyddion Prydain yn 16% o'r cynnwys ar-lein. Roedd negeseuon sain a thrac sain y diweddglo yn cynnwys llawer o ieithoedd gwahanol gan ddynodi natur amlieithog cyfathrebu ymhen 30 mlynedd – rhan allweddol o weledigaeth yr adeiladwyr bydoedd ar gyfer Cymru'r dyfodol.



# Y TRAC SAIN

Cyfansoddwyd sgôr GALWAD gan Dyfan Jones gyda'r cyfansoddwyr cyswllt Alexander Comana a Beth Lewis, a'r cerddorion Greta Isaac, Lemfreck a Dunja Botic. Roedd y sgôr yn cynnwys isgerddoriaeth, sain cynefin a darnau ar gyfer dawns, gan gyfuno llawer o wahanol genres o gerddoriaeth. Bu'r gantores-gyfansoddwraig Eädyth hefyd yn cyfansoddi ac yn perfformio dehongliad o drac GALWAD ar ffilm Jamie Jones.

Cafodd y sgôr ei pherfformio, ei recordio a'i chymysgu yn Aberdâr yng nghymoedd y de, gyda mwyafrif helaeth y gwaith golygu a pheirianneg yn cael ei wneud gan artistiaid o Gymru neu sy'n byw yng Nghymru.

GWRANDO YMA



GRETA ISAAC



LEMFRECK



**Gweithiodd Pobl Ifanc gyda'n timau creadigol a chyfathrebu ar draws sawl elfen o'r prosiect gan gynnwys:**

- Dyfeisio'r sgript fyw a pherfformio yn y diweddglo
- Creu cynnwys ar gyfer adrodd straeon digidol ar Tiktok ac Instagram
- Ffilmio y tu ôl i'r llenni
- Perfformio yn ffilm Jamie Jones o Ferthyr Tudful
- Croesawu cynulleidfaoedd yn Siop Galwad

**Yn sgil cymryd rhan yn Galwad, dywedodd pobl ifanc ar draws y rhaglen wrthon ni eu bod:**

- Yn teimlo'n fwy optimistig
- Wedi datblygu rhwydweithiau personol a phroffesiynol
- Wedi magu hyder.
- Wedi datblygu gwell dealltwriaeth o gyfleoedd creadigol yng Nghymru
- Wedi magu eu hunan-werth
- Wedi datblygu gwell dealltwriaeth o weithredu cadarnhaol tuag at ddyfodol mwy teg a chynaliadwy.

**GWYLIWCH FFILM JAMIE JONES YMA**

# DYFEISIWYD GYDA PHOBL IFANC

# DATGLOI CYFLEOEDD



# CWMNI IFANC

Roedd Cwmni Ifanc GALWAD yn cynnwys 12 o bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed, a gafodd eu recriwtio drwy broses hygyrch, agored ac anffurfiol a ddyluniwyd ar y cyd gan bobl ifanc ac a gyflwynwyd mewn partneriaeth ag EYST, Citizens Cymru, Frân Wen a Chelfyddydau Anabledd Cymru. Fe fuodd aelodau'r Cwmni Ifanc yn gweithio ar draws holl feysydd y prosiect gan gynnwys y stori fyw, y ddrama a ddarlledwyd, sgriptio, newyddiaduraeth dinasyddion, mynediad a chynhwysiant a chynaliadwyedd. Cynhaliwyd chwe chyfnod preswyl dros gyfnod o chwe mis yn ogystal â gweithio ar y prosiect. Cafwyd bwrsariaethau o £6k ar gyfer pob aelod o'r cwmni ifanc gan gynnwys tri diwrnod gwaddol wedi'u talu ymlaen.

**GWYLIWCH FFILM Y CWMNI IFANC**



"Dydw i ddim yr un person ag o'n i cyn i fi ddechrau fy nhaith ar y prosiect yma. Dw i wedi cael fy ailsiapio gan yr holl bobl a chymunedau y ces i gyfle i ddysgu am eu cyfoeth...

LAURIE, AELOD CWMNI IFANC GALWAD

# DATBLYGU SGILIAU CYNHWYSOL

**Roedd GALWAD yn ymrwymedig i alluogi datblygiad sgiliau proffesiynol ym mhob rhan o waith cynhyrchu'r prosiect, yn enwedig ar gyfer gweithwyr llawrydd o Gymru neu sy'n byw yng Nghymru. Fe wnaethon ni gyflwyno hyn drwy:**

- Recriwtio cynhwysol.
- Pecynnau mynediad i bob unigolyn.
- Diwylliant sefydliadol diogel a chefnogol ar gyfer dysgu.
- Rhannu arweinyddiaeth greadigol a chydweithredol.
- Oriau gwaith hyblyg.
- Mentoriaid a rolau cysgodol ar gyfer cyfleoedd camu i fyny.
- Llwyfannu doniau newydd drwy fathau newydd o bartneriaeth.
- Sefydlu bwrdd prosiect allanol a set o gynghorwyr fel cyfeillion beirniadol.

**A sicrhau bod:**

- 67 o bobl ifanc yn cael eu cefnogi drwy sesiynau darganfod.
- 42 o weithwyr llawrydd yn gwneud hyfforddiant gyda Cult Cymru.
- 39 o gyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau tîm y prosiect craidd e.e. ymwybyddiaeth o fyddardod ac anabledd.
- 19 o rolau cyswllt yn cael mentora cam nesaf gan gynnwys dylunio, cyfansoddi, creu ffilmiau, ysgrifennu a choreograffi.
- 10 hyfforddai Troed yn y Drws.
- 9 newyddiadurwr dinesig wedi'u hyfforddi.





# CAST CYMUNEDOL

Fe fuodd 150 o berfformwyr cymunedol yn gweithio gyda'r tîm creadigol ar ddyfeisio a/neu berfformio'r golygfeydd byw, y ddrama ddarlledu a'r negeseuon sain; gan gynnwys y Merthyr Movers fuodd yn gweithio gydag Anthony Matsena a Marc Rees; myfyrwyr Coleg Merthyr fuodd yn gweithio gyda'r gwneuthurwr ffilmiau Jamie Jones; a chast ifanc y diweddglo – a ddyfeisiodd y perfformiad croesawu ym Mlaenau Ffestiniog.

> Yn fy oedran i, wnes i erioed feddwl y byddwn i'n cael cyfle i ddawnsio. Diolch am newid fy mywyd. Mae menywod ein hoedran ni fel arfer yn cael eu hanghofio.

UN O GYFRANOGWYR MERTHYR

> Fe gawson ni'r fraint o fod yn rhan o'r cast cymunedol ar gyfer y cynhyrchiad arloesol yma. Mae'n brofiad na wnawn ni byth mo'i anghofio! ... Roedd y cast ifanc mor dalentog, yn llawn angerdd yn eu hawydd i adrodd y stori ryfeddol yma gyda'i neges bwysig...

LYNWEN P., FACEBOOK



# YMGYSYLLTU

**DYFODOLISM**
Mae cymuned Blaenau drwy CellB yn cyd-guradu cyfres o ddigwyddiadau a ffilmiau sy'n canolbwyntio ar y dyfodol gydag Alex McDowell o Experimental Design. Bydd y tymor yma o waith yn adeiladu ar eu profiad o adeiladu bydoedd ac yn canolbwyntio ar ddyfodol Blaenau.

**CAPS**
Ein 'hysgogwyr' yng nghymuned Blaenau. Fe fuodd y grŵp yma o saith o drigolion Blaenau, oedd wedi'u recriwtio a'u rheoli gan CellB, yn helpu i lunio'r stori, y gweithgarwch cyfranogi a phrofiad y gynulleidfa ar gyfer cymuned Blaenau a'r gymuned ehangach.

**SIOP GALWAD**
Siop galw heibio wedi'i dyfeisio a'i chynnal gan y partneriaid cymunedol CellB, y tîm ymgysylltu ac aelodau'r cwmni ifanc i ddarparu lle ym Mlaenau Ffestiniog i sgwrsio am brosiect GALWAD.

**YSTAFELL NEWYDDION Y BOBL**
Cefnogwyd 9 o bobl o bob rhan o Gymru gan y Swyddfa Newyddiaduraeth Ymchwiliol a'r Rhwydwaith Newyddiaduraeth Atebion i ystyried goblygiadau GALWAD fel newyddiadurwyr dinesig. Cafodd eu testunau eu cyhoeddi gan Nation.Cymru.

**TROED YN Y DRWS**
Cefnogwyd 10 hyfforddai i weithio fel rhan o'r cynhyrchiad drama deledu gyda chwmni ffilmiau Mad as Birds, wedi'i gydlynu gan Ffilm Cymru.

# YSGOLION

Roedd ‘Wythnos yn y Dyfodol’ yn cynnwys cyfres o weithgareddau a gwersi byw ar gyfer disgyblion 7-11 oed, wedi’u cyd-greu a’u cyd-ddylunio gydag Eco-Sgolion. Roedd y gwersi’n annog ac yn ysbrydoli disgyblion i archwilio a chwestiynu beth fydd y dyfodol yn ei olygu i’w hysgolion, eu cymunedau a’u bywydau.

Roedd gwersi byw yn cynnwys cyfweliadau byw rhyngweithiol a sesiynau holi ac ateb gyda gwesteion arbennig, gweithgareddau rhyngweithiol i ddisgyblion a chipolwg ar y dyfodol drwy gynnwys digidol oedd yn cynnwys adroddiadau tywydd y dyfodol a hysbysebion y dyfodol.

**173**

O YSGOLION CYMRU YN CYMRYD RHAN YN Y GWERSI BYW

**2,500**

O FYFYRWYR UNIGOL

**11,010**

O DDISGYBLION YN BRESENNOL DROS GYFNOD O WYTHNOS


**ARCHWILIO’R ADNODDAU YSGOLION**











> Ar ôl meddwl am ein dyfodol gydag EcoSgolionCymru mae @GALWAD22 #ctkcardiffy3 yn lledaenu neges bositif! Rydyn ni'n gwybod mai EIN DYFODOL NI YW E ac y gallwn ni greu'r newid. Rydyn ni'n gwybod sut rydyn ni eisiau i 2052 edrych.

YSGOL GYNRADD GATHOLIG
CRIST Y BRENIN, TWITTER




# GWEITHLU

**485**

O UNIGOLION A GWEITHWYR LLAWRYDD WEDI'U CYMRYD YMLAEN I WEITHIO AR Y PROSIECT.

**£3.1 MILLION**

WEDI'I WARIO AR UNIGOLION A GWEITHWYR LLAWRYDD.

**84%**

YN BYW YNG NGHYMRU

**25%**

O GEFNDIROEDD DU, ASIADD NEU'R MWYAFRIF BYD-EANG

**27%**

YN FYDDAR A/NEU'N ANABL NEU'N BYW GYDA CHYFLWR MEDDYGOL HIRDYMOR

**26%**

YN LHDTCRH

> "Roedd yn hen bryd i ni weld cydweithio traws-ddiwydiannol ar y raddfa yma ac mae'n gyfle pwysig i'r sector ddod at ei gilydd ar ôl dwy flynedd o darfu, cau a cholli swyddi ar draws y proffesiynau sy'n ei gynnal.
>
> WALES ART REVIEW

# BUSNES A CHYLLID

**125**
O FUSNESAU A SEFYDLIADAU CYMREIG WEDI'U CYMRYD YMLAEN.

**70%**
O FUSNESAU A SEFYDLIADAU YN RHAI CYMREIG

**70%**
O WARIANT CYFFREDINOL Y PROSIECT YNG NGHYMRU

**80%**
O'R GWARIANT CYNHYRCHU YNG NGHYMRU



# CYNALIADWYEDD

**LAWRLWYTHWCH YR ADRODDIAD CYNALADWYEDD**

- Rhoddodd stori GALWAD fywyd i bosibiliadau newid drwy hadau arferion cynaliadwy hunan-drefnus yn y presennol. Ysbrydolwyd y weledigaeth ar gyfer newid cadarnhaol gan sefydliadau fel Canolfan y Dechnoleg Amgen ac unigolion ac asiantaethau ledled Cymru sydd eisoes yn arwain y ffordd tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy a theg.
- Mae'r Ddrama Deledu a'r Darlledliad Byw wedi'u cofrestru gydag ALBERT
- Cymhwyso Egwyddorion Llyfr Gwyrdd y Theatr
- Asesiadau Effaith Amgylcheddol wedi'u cwblhau i sicrhau na fyddai dim effaith negyddol ar yr amgylchedd na bioamrywiaeth
- Ymrwymiad i Ôl Troed Carbon sero net drwy leihau defnydd ynni, gwneud dewisiadau o ran tanwydd, ac wrth ddylunio setiau, gyda mesurau lliniaru creadigol.
- Defnyddio egwyddorion yr economi gylchol a gweithredu'r agwedd arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu ar gyfer ein gwastraff



# MEWNBWYSO CARBON, NID GWRTHBWYSO CARBON.

- Drwy ddefnyddio tanwydd HVO ar gyfer pŵer safle'r digwyddiad, arbedwyd 71T o allyriadau carbon.
- Cefnogaeth i fenter gymdeithasol Y Dref Werdd ym Mlaenau Ffestiniog, menter yn ymwneud â beiciau trydan, rhoi cyngor ynni a phlannu 5,000 o goed yn lleol – lleihau'r defnydd o ynni ac atafaelu carbon yn y dyfodol ar gyfer dros 3,000 tunnell o $CO_2$.
- Helpu i sefydlu gardd natur ieuenctid a gardd farchnad newydd, gan gefnogi bioamrywiaeth a chael effaith ar iechyd a lles.
- Anfon yr holl bren o ddyluniad y golygfeydd yn y Blaenau at fenter ailgylchu pren newydd – gan gynnal egwyddorion economi gylchol, lleihau gwastraff a rhoi hwb i fusnes newydd.

## 159 TUNNELL

O ALLYRIADAU CARBON WEDI'U GWRTHBWYSO NEU EU LLEIHAU GAN WEITHREDOEDD GALWAD



# PARTNERIAID

Roedd GALWAD yn rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y Deyrnas Unedig, sydd wedi'i gyd-gomisiynu gyda Cymru Greadigol drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Cynhyrchwyd GALWAD gan Casgliad Cymru, partneriaeth Cymru gyfan o dan arweiniad National Theatre Wales sy'n cynnwys Frân Wen, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Clwstwr, Celfyddydau Anabledd Cymru, Ffilm Cymru a Sugar Creative.

Roedd ein partneriaid adeiladu bydoedd cymunedol yn cynnwys CellB, Citizens Cymru, Celfyddydau Anabledd Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) ac Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful.

Arweiniwyd prosiect Ystafell Newyddion y Bobl gan y Swyddfa Newyddiaduraeth Ymchwiliol a'r Rhwydwaith Newyddiaduraeth Atebion.

# CYDNABYDDIAETH AM LUNIAU

Tudalen 1
Aisha-May Hunte ac Alexandria Riley fel Efa. Llun: Warren Orchard a Mo Hassan.

Tudalen 2
Rhodri Meilir fel Tomos mewn llun llonydd o'r diweddglo byw a ddarlledwyd gan Sky Arts.

Tudalen 3
Aisha-May Hunte yn y diweddglo byw. Llun: Kirsten McTernan. Gosodwaith Golau Ronan Devlin.

Tudalen 4
Rhoda Montemeyor fel Luna, Drama Deledu GALWAD. Llun: Suzie Larke.

Tudalen 5
Portreadau adeiladwyr bydoedd gan Mo Hassan.

Tudalen 6
Baner ar set Drama Deledu GALWAD. Llun: Kirsten McTernan

Tudalen 8
Rhodri Meilir fel Tomos mewn llun llonydd o flogiad fideo.

Tudalen 9
Aisha-May Hunte a chast byw GALWAD mewn llun llonydd o olygfa fyw gyntaf Abertawe.

Tudalen 10
Lluniau llonydd o fonologau 2052 yn cynnwys (clocwedd): Boo Golding, Anais Jessica Berinde, Seiriol Davies, Richard Harrington, Asnath Losala, Kel Matsena, Justin Melluish, Jenna Preece, Mali Ann Rees, Owen Teale

Tudalen 11
Dawnswyr a chast byw ar draeth Abertawe. Llun: Kirsten McTernan

Tudalen 12
Y diweddglo byw ym Mlaenau Ffestiniog. Llun: Kirsten McTernan. Dylunio: Edie Morris a Marc Rees.

Tudalen 13
Nitin Ganatra fel Namit yn Nrama GALWAD. Llun: Kirsten McTernan

Tudalen 14
Aelod o'r gynulleidfa yn y diweddglo byw. Llun: Kirsten McTernan

Tudalen 15
Y cast byw ym Merthyr Tudful. Llun: Kirsten McTernan

Tudalen 16
Y diweddglo byw ym Mlaenau Ffestiniog. Llun: Kirsten McTernan. Dyluniad y gosodwaith golau: Ronan Devlin

Tudalen 17
Richard Harrington mewn llun llonydd o fonolog a ysgrifennwyd gan Matt Colin Evans.

Tudalen 19
Aisha-May Hunte yn y diweddglo byw. Llun: Kirsten McTernan

Tudalen 20
Josh Attwood mewn gwisg o 2052 a ddyluniwyd gan Rhiannon Matthews ar gyfer golygfa parti fyw. Llun: Kirsten McTernan

Tudalen 21
Nadeem Islam fel Dhiru mewn llun llonydd o ddrama deledu GALWAD.

Tudalen 22
Aisha-May Hunte mewn llun llonydd o olygfa fyw yn Abertawe.

Tudalen 23
Ciaran O'Breen yn sgwrsio â dehonglwyr iaith arwyddion yn ymarfer siop trin gwallt Merthyr. Llun: Kirsten McTernan

Tudalen 24
Greta Isaac a Lemfreck. Llun: Ella Brolly.

Tudalen 25
Llun llonydd o ffilm Merthyr Tudful a gyfarwyddwyd gan Jamie Jones yn cynnwys myfyrwyr o Goleg Merthyr.

Tudalen 26
Anthony Matsena, y Prif Goreograffydd yng Nghwmorthin. Llun: James O'Doherty

Tudalen 27
Merthyr Movers yn ymarfer ar draphont Merthyr Tydful. Llun: Kirsten McTernan.

Tudalen 28
Londiwe Mthembu mewn golygfa fyw yn Abertawe. Llun: Kirsten McTernan

Tudalen 29
Merthyr Movers yn ymarfer ar draphont Merthyr Tudful. Llun Kirsten McTernan.

Tudalen 30
Un o gyfranogwyr y cast ifanc yng ngorymdaith y diweddglo byw ym Mlaenau Ffestiniog. Llun: Kirsten McTernan.

Tudalen 31
Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin, Caerdydd mewn gwers fyw ar gyfer rhaglen ysgolion Wythnos yn y Dyfodol.

Tudalen 32
Lluniau o gyfranogiad ysgolion yn rhaglen ysgolion Wythnos yn y Dyfodol.

Tudalen 33
Y criw cynhyrchu ar leoliad yn ystod gwaith ffilmio drama deledu GALWAD. Llun: Kirsten McTernan.


Tudalen 34
Saethiad o'r gwaith cynhyrchu wrth ffilmio drama deledu GALWAD. Drwy garedigrwydd Mad as Birds.

Tudalen 35
Boo Golding fel Keefer mewn llun llonydd o ddrama deledu GALWAD. Drwy garedigrwydd Mad as Birds.

Tudalen 36
Cwomorthin, lleoliad yr olygfa fyw. Llun: James O'Doherty

Tudalen 37
Aelod o'r cast ifanc yn y diweddglo byw ym Mlaenau Ffestiniog. Llun: Kirsten McTernan.

Tudalen 39
Aisha-May Hunte wrth i Efa draddodi ei haraith olaf ym Mlaenau Ffestiniog. Llun: Kirsten McTernan.




"Fe welson ni, jyst mewn pryd, yn lle byw ar ddiwedd popeth, y gallen ni fod yn byw ar ddechrau rhywbeth yn lle hynny. Ac unwaith i ni gael blas o hynny, wel, roedd rhaid i bopeth newid, yndoedd? Felly dyna beth ddigwyddodd. Yma, ac ar hyd a lled y wlad. Yn wyneb ofn, ac adfyd, dychmygodd pobl ffyrdd newydd o deithio, cynhyrchu, ffermio, ennill, llywodraethu, a daeth y dychymyg yna'n weithredu ac fe roddodd y gweithredu yna obaith i ni. Ond nid y math o obaith lle byddwch chi'n eistedd ar y cyrion. Nid gobaith lle byddwch chi'n 'gwylio ac yn gwneud sylwadau'. Na, un o nerfau, o waith, o her, o weithredu oedd hwn. Gobaith radical."

EFA, ARAITH OLAF YM MLAENAU FFESTINIOG

National Theatre Wales

FRÂN WEN

Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

40
1982-2022
Disability Arts Cymru

clwstwr

sugar CREATIVE

EXPERIMENTAL

STORI GALWAD

UNBOXED
CREATIVITY IN THE UK

Cymru Greadigol
Creative Wales